# Troswyr Signal Symudol

Ymestyn amrywiaeth y troswyr y gall pobl eu defnyddio i wella eu darpariaeth symudol dan do

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 4 Tachwedd 2021

# 1. Trosolwg

Ystyrir bod gwasanaethau symudol yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd ac mae pobl yn disgwyl i'w dyfeisiau symudol weithio'n ddibynadwy lle bynnag y maent.

Er bod darpariaeth symudol yn gwella'n gyson, mae rhai pobl yn dal i'w chael hi'n anodd cael signal dda yn gyson, yn enwedig dan do. Mewn rhai amgylchiadau, gall defnyddio dyfais troswr symudol roi hwb i signal awyr agored er mwyn iddo dreiddio'n fwy effeithiol dan do.

Tan yn ddiweddar, roedd defnyddio'r fath ddyfeisiau'n anghyfreithlon heb drwydded gan Ofcom oherwydd pryderon am ymyriad â rhwydweithiau a defnyddwyr eraill. Ond yn 2018 penderfynodd Ofcom ganiatáu i ddefnyddwyr osod a defnyddio ystod gyfyngedig o droswyr ('troswyr gweithredwr unigol') i roi hwb i signalau un gweithredwr symudol ar y tro.

Ers hynny, mae dadansoddiad technegol pellach wedi ein bodloni y gallwn ymestyn yr amrywiaeth o ddyfeisiau troswr hunanosodedig a all weithredu heb drwydded yn ddiogel.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein penderfyniadau terfynol ar gynigion a nodwyd mewn ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021.

### Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

Rydym wedi penderfynu ymestyn amrediad y troswyr sefydlog dan do sydd ar gael i bobl eu prynu a'u gosod eu hunain heb orfod cael eu trwyddedu. Yn benodol, byddwn yn caniatáu defnyddio dau fath ychwanegol o droswr:

- troswyr sy'n benodol i ddarparwr; a
- throswyr all weithredu gyda gweithredwyr lluosog.

Gall y ddau fath hyn o droswr fwyhau amleddau mwy nag un gweithredwr symudol ar y tro, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion technegol priodol a bennir gan Ofcom.

Er mwyn helpu'r cyhoedd i nodi troswyr a all gael eu defnyddio'n 'gyfreithlon' heb drwydded – yn hytrach na dyfeisiau 'anghyfreithlon' sy'n peri'r risg o achosi ymyriad – rydym hefyd wedi penderfynu cyhoeddi rhestr o droswyr signal symudol ar ein gwefan yr ydym ar ddeall eu bod yn cydymffurfio â gofynion technegol ein cyfundrefn eithriad trwydded.

I fod yn glir, ni fydd Ofcom yn dilysu nac yn cymeradwyo cynhyrchion penodol. Yn hytrach, bydd y rhestr yn nodi dyfeisiau sydd wedi cael eu profi gan dŷ prawf achrededig i ddangos eu bod yn bodloni ein gofynion technegol, gan ddefnyddio safon brofi wirfoddol a gynhyrchir gan Ofcom.

Bydd ein penderfyniadau'n cael eu gweithredu yn gynnar yn 2022 ar ôl i Reoliadau Eithriad Trwydded ddod i rym. Tan hynny, bydd y defnydd o droswyr signal symudol, heblaw am y troswyr gweithredwr unigol hynny a gwmpesir gan ein heithriad trwydded presennol a'r rhai a ddarperir ac a weithredir o dan reolaeth gweithredwr rhwydwaith symudol, yn parhau'n anghyfreithlon.

**D.S. Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud, a'n sail resymegol drostynt, yn y ddogfen lawn.**